# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr yr Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 26 Medi 2017 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc; Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Datblygu Seilwaith Cymunedol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Meirick Lloyd Davies, Martyn Holland, Huw Jones, Arwel Roberts, Rhys Thomas ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (RM) a Chymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a (GW), Swyddog Cyllid /Adran 151 (RW), Gwella Busnes a Moderneiddio (AS); Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (NK) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## PWYNT O WYBODAETH

Dywedodd yr Arweinydd fod Rebecca Maxwell, y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn mynychu ei chyfarfod diwethaf o'r Cabinet ac aeth ati i gyfleu ei werthfawrogiad am y gwaith gwerthfawr yr oedd wedi ei wneud yn ystod ei hamser gyda'r awdurdod a dymunodd y gorau iddi ar gyfer y dyfodol. Dywedodd Ms. Maxwell ei bod wedi mwynhau ei hamser gyda'r awdurdod yn fawr a bod Sir Ddinbych yn lle gwych i weithio a byw ynddo. Diolchodd i bawb am eu cefnogaeth dros y pum mlynedd diwethaf ac adlewyrchodd ar gyflawniadau'r awdurdod a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2017.

Tudalen 10, Eitem 7: Penodi Aelodau i Gyrff Allanol - Tynnodd y Cynghorydd Bobby Feeley sylw at y ffaith bod y rhan fwyaf o'r cynrychiolwyr penodedig wedi bod yn ddynion a gofynnwyd i hyn gael ei gadw mewn cof wrth ystyried penodiadau yn y dyfodol gyda'r bwriad o gynyddu'r nifer o ferched ar gyrff allanol. Gofynnodd yr Arweinydd i'r aelodau ystyried y pwynt hwn wrth gymeradwyo penodiadau yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2017 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

## 5 CAIS BARGEN TWF ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD CYNNYDD

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad yn diweddaru'r Cabinet ar gynnydd gyda datblygu Cais Bargen Twf ar gyfer y rhanbarth, cynghorodd am y camau nesaf o fewn y broses a gofynnodd am gymeradwyaeth i awdurdodiadau ar gyfer y gwaith sy'n mynd rhagddo.

Atgoffwyd y Cabinet fod Gweledigaeth Twf Economi Gogledd Cymru wedi cael ei fabwysiadu gan y chwe Chabinet a sefydliadau partner eraill ac fe'u gwahoddwyd i ddatblygu'r weledigaeth honno yn 'Gais Twf' ar gyfer buddsoddiad cenedlaethol a chyflwyno pwerau o Lywodraethau'r DU a Llywodraeth Cymru. Roedd yr Arweinydd yn hyderus y byddai Sir Ddinbych yn elwa o'r fargen a thynnodd sylw at yr angen i weithio'n rhanbarthol gyda phartneriaid i ddarparu economi ffyniannus i Ogledd Cymru.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a Pharth y Cyhoedd rywfaint o gefndir pellach ac amlinellodd waith datblygu a wnaed eisoes o dan themâu (a) safleoedd cyflogaeth a thai strategol; (b) twf busnes ac arloesed; (c) seilwaith cludiant a gwasanaethau; a (d) sgiliau, diweithdra a diwygio lles. Rhoddodd wybod hefyd am yr amserlenni disgwyliedig ar gyfer cynnydd yn y dyfodol ac ymhelaethodd ar argymhellion yr adroddiad. Roedd angen i drafodaethau cynnar ddechrau gyda Llywodraethau Cymru a'r DU a gofynnwyd am gymeradwyaeth i sefydlu Cyd-bwyllgor 'Cysgodol' ac awdurdodi'r Arweinydd i gynrychioli Sir Ddinbych arno ac yn y trafodaethau cam cyntaf hyd nes y bydd y Cydbwyllgor llawn yn cael ei sefydlu'n ffurfiol. Roedd adroddiad tebyg yn cael ei gyflwyno i'r chwe Chabinet.

Yn ystod trafodaeth hir, roedd y prif bwyntiau'n canolbwyntio ar y materion canlynol -

- codwyd cwestiynau ynglŷn â pherthynas a rhyngweithio Sir Ddinbych gyda chynghreiriau economaidd eraill o ystyried y cais bargen twf ac esboniodd y swyddogion rôl Cynghrair Mersi Dyfrdwy a oedd yn parhau i weithio ochr yn ochr â'r rhanbarth; cyfeiriwyd at weithio'n agos â Phartneriaeth Economaidd

Leol Sir Gaer a Warrington ar sail drawsffiniol; a’r cyfraniadau a wnaed i strategaeth ehangach rhwydwaith Pwerdy’r Gogledd.

- Cyfeiriwyd ymhellach at y gwaith rhanbarthol yn rhedeg yn baralel i geisiadau twf mewn rhanbarthau penodol o Loegr ac yn Ne Cymru a chysylltiadau cydnabyddedig â Gorllewin Canolbarth Lloegr yn benodol a'r angen i weithio gyda’r Midlands Engine for Growth. Nodwyd hefyd y byddai angen i rôl Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru newid o ganlyniad i'r trefniadau llywodraethu newydd, a phwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod Sir Ddinbych mewn sefyllfa dda i elwa o'r gwaith rhanbarthol ac ni fyddai o dan anfantais o ganlyniad iddo. Roedd swyddogion yn awyddus i bwysleisio'r manteision cryf posibl ar gyfer Sir Ddinbych, a oedd mewn sefyllfa dda iawn o fod yn ganolog yn y rhanbarth, ac roedd cynigion eisoes yn y cais bargen twf a fyddai o fudd i'r sir. Roedd llawer o lobïo buddsoddi yn cael ei wneud gyda'r bwriad o wella cysylltedd (yn gorfforol a digidol) a fyddai'n ei gwneud yn haws i drigolion deithio, a’r cyfleoedd cyflogaeth y gellid eu creu ymhellach i ffwrdd ac yn y sir â Pharc Busnes Llanelwy wedi cael ei nodi fel lleoliad cyflogaeth allweddol. Byddai'r Arweinydd yn gyfrifol am hyrwyddo a diogelu buddiannau Sir Ddinbych drwy'r Cydbwyllgor ac mae’r gwaith hwn hefyd wedi ei nodi yn flaenoriaeth graidd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol newydd.
- ymhelaethodd swyddogion ar y model llywodraethu arfaethedig a threfniadau cyfansoddiadol gan gynghori y byddai'r aelodaeth yn cynnwys Arweinydd pob un o'r chwe Chyngor gyda'r opsiwn i gyfethol cynghorwyr nad ydynt yn pleidleisio o dri sefydliad partner allweddol. Er mwyn cefnogi'r Cydbwyllgor byddai angen awdurdod lletyol i ddarparu cefnogaeth gyfreithiol, ysgrifenyddol a gweinyddol. Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu Cytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA) yn nodi sut y byddai'r Cydbwyllgor yn cael ei lywodraethu; sut y byddai penderfyniadau’n cael eu gwneud (gan gynnwys materion a gadwyd yn ôl i awdurdodau unigol); sut y byddai cyfraniadau ariannol yn cael eu dosrannu ac indemniadau. Byddai'r IAA hefyd yn nodi sut y gallai awdurdod lleol adael y cytundeb hwnnw. Cyfeiriwyd at wahanol fodelau ar gyfer trefniadau partneriaeth a rhoddwyd sicrwydd mai'r Cydbwyllgor oedd y model mwyaf priodol yn yr achos hwn. Roedd y model a argymhellir a’i swyddogaethau yn gyson gyda’r model a gynigwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer llywodraethu rhanbarthol. Byddai angen sefydlu gwahanol strwythurau o dan y Cydbwyllgor er mwyn goruchwylio prosiectau unigol. Nodwyd bod angen trafodaeth bellach ynghylch cymesuredd a chyfraniadau ariannol ar gyfer cynlluniau penodol i sicrhau bod Sir Ddinbych yn cael gwerth am arian ac amlygwyd yr angen am strwythur llywodraethu ariannol clir hefyd. Byddai angen cymeradwyo achosion busnes unigol ar gyfer elfennau o geisiadau penodol o ran telerau ariannol a chynnwys
- byddai craffu'r Cyd-bwyllgor yn fater i'r chwe awdurdod lleol gytuno arno a'i gynnwys yn yr IAA ac efallai y byddai opsiwn i ystyried trefniadau craffu ar y cyd - byddai'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau dros dro yn adolygu'r trefniadau ar gyfer y cais bargen twf fel mae’n datblygu
- eglurwyd na fyddai unrhyw awdurdod arweiniol ac na fyddai gan unrhyw awdurdod lleol fwy o ddylanwad dros un arall. Byddai'r awdurdod lletya yn darparu cefnogaeth gyfreithiol, ysgrifenyddol a gweinyddol ac ni fyddai'n cynnig mantais

- o ran arwain at feysydd gwaith penodol yn mynd ymlaen, cyfeiriodd yr adroddiad at yr hyn oedd ei angen i ddatblygu'r cynigion hynny yn achosion busnes a fyddai'n fater i'r Cyd-bwyllgor Cysgodi ei ystyried. Awgrymwyd y gallai tîm o swyddogion, ar secondiad efallai, weithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r cynigion ar gyfer y rhanbarth
- roedd rhywfaint o drafodaeth yn canolbwyntio ar gysylltedd ffisegol y rhanbarth gan gynnwys pwysigrwydd Porthladd Caergybi; prosiectau gan gynnwys trydaneiddio, a chysylltiadau trafnidiaeth penodol eraill yn y rhanbarth. Roedd isadeiledd a chysylltedd ffyrdd a rheilffyrdd a chynllunio trafnidiaeth ehangach yn ganolog i Strategaeth Twf Gogledd Cymru ac roedd Cynllun Trac Twf 360 yn cyflwyno achos dros fuddsoddiad rheilffyrdd trawsffiniol. O ran gweithio'n rhanbarthol, roedd y cynnig ar gyfer Cyd-bwyllgor yn ymwneud â datblygu economaidd, ond o ystyried pwysigrwydd isadeiledd cludiant, disgwylir y byddai angen Is-bwyllgor Cludiant arbenigol. Roedd Aelodau Arweiniol wedi bod mewn trafodaethau ynglŷn ag ymagwedd fwy rhanbarthol i alluogi mwy o reolaeth o faterion cludiant y gellir eu cyflawni trwy gael awdurdod cludiant rhanbarthol
- eglurwyd byddai’r cais twf i Lywodraethau'r DU a Chymru a fyddai'n cytuno ar y cyd p'un a fyddent yn ei ariannu ai peidio ac amlygwyd yn yr adroddiad yr angen am ystyriaeth ofalus o'r model llywodraethu terfynol a'r ffordd y cymeradwyir unrhyw gyfraniadau neu ymrwymiadau ariannol yn y dyfodol. Nid oedd dim goblygiadau adnoddau ychwanegol uniongyrchol yn codi ar y cam hwn, ar wahân i wneud cyfraniad refeniw o £50k o gyllidebau 2017/2018 a oedd eisoes wedi'i gyfrif. Byddai costau’r dyfodol yn cael eu hystyried mewn rowndiau cyllideb yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a)* *nodi a chefnogi cynnydd datblygiad Cais Bargen Twf cystadleuol ar gyfer y rhanbarth.*

*(b)* *cefnogi mewn egwyddor, y model llywodraethu a ffafrir, sef model cydbwyllgor statudol ar gyfer ei ddatblygu ymhellach, gydag adroddiad llawn ar gyfansoddiad a chylch gorchwyl, a Chytundeb Rhyng-Awdurdod, i ddilyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.*

*(c)* *awdurdodi’r Arweinydd i weithredu fel aelod Sir Ddinbych o Gydbwyllgor ‘Cysgodol’ yn y cyfnod interim.*

*(d)* *awdurdodi’r Arweinydd, ynghyd ag Arweinwyr y 5 cyngor partner arall, i ddechrau trafodaethau cam cyntaf cyfun gyda’r ddwy Lywodraeth dros raddfa a chynnwys amlinellol Cais Bargen Twf, gan nodi na ddechreuir unrhyw ymrwymiadau ariannol nac ymrwymiadau eraill ar y cam cyntaf hwn o drafodaethau, a*

*(e)* *chadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

**6 CYNLLUN CORFFORAETHOL CYNGOR SIR DDINBYCH 2017-2022**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y Cynllun Corfforaethol drafft i'w ystyried gan y Cabinet cyn ei gyflwyno i'r Cyngor ar 17 Hydref 2017.

Roedd y Cyngor diwethaf wedi darparu Cynllun Corfforaethol uchelgeisiol iawn i raddau helaeth gan ddangos ei uchelgais a'i ymrwymiad i gyflawni ei flaenoriaethau. Roedd y blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol drafft yn cynnwys Tai; Pobl Iau: Cymunedau Cysylltiedig; Cymunedau Gwydn a'r Amgylchedd ac fe'u nodwyd yn dilyn proses gynhwysfawr o gasglu tystiolaeth a dadansoddi ac ymgynghori'n fanwl â chymunedau (Sgwrs y Sir), partneriaid ac aelodau etholedig. Pe bai'r Cynllun yn cael ei fabwysiadu, dylai fod yn bosibl cyflawni'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu yn amodol ar argaeledd cyllid ar gyfer prosiectau penodol a byddai Cynllun Ariannol ategol yn cael ei gynnwys fel rhan o ddogfen y Cynllun Corfforaethol a gyflwynwyd i'r Cyngor. Tynnwyd sylw'r Cabinet at yr egwyddorion allweddol o fewn y Cynllun o ran Cydraddoldebau a'r Iaith Gymraeg ynghyd â threfniadau llywodraethu wrth symud ymlaen, gan gynnwys craffu a monitro. Yn olaf, atgoffodd y Cynghorydd Thompson-Hill yr aelodau o'i gynnig i gyfarfod â grwpiau gwleidyddol i drafod y Cynllun Corfforaethol ymhellach a darparu sicrwydd y byddai materion pwysig a godwyd gan aelodau yn ystod y broses ymgynghori a oedd heb eu cynnwys yn benodol yn y Cynllun wedi cael eu dal mewn mannau eraill o fewn y cynlluniau busnes gwasanaethau.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y broses ymgynghori a'r canlyniadau o fewn y Cynllun Corfforaethol a oedd yn dangos bod y Cyngor wedi gwrando ac ymateb i'r materion a godwyd. Croesawodd a chefnogodd y Cynllun fel ffordd o gyflawni disgwyliadau trigolion o awdurdod lleol a gwneud gwahaniaeth mewn cymunedau. Roedd yn fodlon y byddai materion pwysig nas cynhwysir fel blaenoriaethau penodol yn y Cynllun o hyd yn cael eu trin gan dynnu sylw at y strategaeth economaidd fel enghraifft dda.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad ymhellach gyda'r Aelod Arweiniol a'r Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio fel a ganlyn -

- Roedd y Cabinet wedi bod yn falch o nodi'r broses ymgynghori agored a thryloyw a oedd wedi arwain at Gynllun a fyddai'n gwneud gwir wahaniaeth i drigolion a chytunodd fod y Cynllun Corfforaethol drafft yn cynnal uchelgeisiau'r Cyngor ond roedd hefyd yn realistig.
- Awgrymwyd y dylid cyfeirio at Sgwrs y Sir ar ddechrau'r ddogfen i osod y cyd-destun a dangos bod barn y trigolion wedi cael ei werthfawrogi a'i ystyried wrth lunio'r Cynllun. Amlygodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts y ffaith bod angen gwneud penderfyniadau mawr er mwyn cyflawni'r Cynllun, gan ddefnyddio penderfyniadau sy'n ymwneud â datblygiadau tai fel enghraifft dda, a gofynnodd i'r holl aelodau etholedig gael eu gwneud yn gwbl ymwybodol o'u rôl yn y broses a'r ymrwymiad sydd ei angen i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus
- Roedd y Cynghorydd Bobby Feeley yn croesawu'n arbennig gynnwys yr Amgylchedd a'i gylch gorchwyl fel blaenoriaeth a dywedodd swyddogion ei bod wedi bod yn thema allweddol gan bobl ifanc yn ystod Sgwrs y Sir
- Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynglŷn â sut i fynegi beth oedd y Cyngor yn gobeithio ei gyflawni, gan gyfeirio'n benodol at eiriad y Cynllun "byddwn ni" o ystyried bod y camau gweithredu i ddiwallu llwyddiannau penodol y tu allan i

reolaeth y Cyngor ac yn gyfrifoldeb ar sefydliadau eraill. Derbyniwyd bod rhai meysydd nad oeddynt o fewn rheolaeth y Cyngor yn unig, ond gallai'r Cyngor ddylanwadu a bod yn gymhellwr o ran sicrhau y cyflawnwyd canlyniadau a'r gobaith oedd y byddai'r geiriad yn adlewyrchu bwriad ac ewyllys y Cyngor i gyflawni canlyniad penodol er gwaethaf nad oedd unrhyw sicrwydd

- cyfeiriwyd at yr egwyddor allweddol i weithio i sicrhau bod yr Iaith Gymraeg yn ffynnu yn Sir Ddinbych a'r angen i wthio hyn ymlaen ymhellach a dywedodd y swyddogion fod y Cynllun yn adlewyrchu sefyllfa'r Cyngor a'r strategaethau ac uchelgais i wella yn y maes hwnnw. Cyfeiriodd yr Arweinydd at sefydlu Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg i fwrw ymlaen â materion ac amlygwyd yr angen am gynnwys a datblygu'r Gymraeg â phobl nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg fel rhan o'r broses honno. Roedd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yn falch bod yr Iaith Gymraeg wedi cael ei chydnabod yn y Cynllun a thynnodd sylw at yr angen i newid y diwylliant a'r ethos i sicrhau bod yr Iaith Gymraeg yn rhan annatod o fywyd bob dydd. Mewn ymateb i alwadau oddi wrth y Cynghorydd Arwel Roberts i ysgolion newydd fod yn ddwyieithog, nododd y Cynghorydd Hilditch-Roberts ei gefnogaeth i ysgolion dwyieithog a soniodd am geisiadau i Lywodraeth Cymru i egluro categorïau iaith o ystyried y dryswch yn hynny o beth
- mewn ymateb i gais i ymgysylltu ymhellach â Chynghorau Tref / Dinas / Cymuned, dywedodd y Cynghorydd Richard Mainon ei fod yn edrych ar sut y gellid dod â Chynghorau Tref / Dinas / Cymuned yn rhan o'r broses a helpu gyda darparu'r Cynllun Corfforaethol
- cyfeiriodd yr aelodau hefyd at gyflawniadau unigol a amlygwyd o fewn y Cynllun a rhoddodd y swyddogion eglurhad ynghylch pam y cawsant eu cynnwys a'u tebygolrwydd o gael eu darparu gan gynnwys cyfeiriadau at dai fforddiadwy; dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd; lleihau nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd a chynyddu'r nifer o goed yn y Rhyl a Dinbych. Eglurwyd hefyd y byddai datblygu llwybrau beicio yn cael ei ystyried o dan thema Cymunedau Cysylltiedig a theithio cynaliadwy.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a)* *cymeradwyo'r drafft terfynol o'r Cynllun Corfforaethol i'w gyflwyno i'r Cyngor Sir ar 17 Hydref 2017 ac argymell iddo gael ei fabwysiadu yn ddarostyngedig i (1) mireinio'r geiriad terfynol, a (2) cynnwys cynllun ariannol ategol, a*

*(b)* *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad B o'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

Ar y pwynt hwn, 11.35 a.m., cymerodd y cyfarfod egwyl am luniaeth.

**7 POLISI CORFFORAETHOL: INCWM, FFIOEDD A THALIADAU**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r Polisi Corfforaethol: Incwm, Ffioedd a Thaliadau sy'n nodi ymagwedd y Cyngor tuag at gynhyrchu incwm a chodi tâl am wasanaethau.

Roedd y Cyngor yn codi oddeutu £48 miliwn yn flynyddol mewn amryw ffioedd a thaliadau. Er bod gweithdrefnau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli incwm wedi'u

nodi'n glir yn y Rheoliadau Ariannol, byddai polisi corfforaethol gydag egwyddorion strategol yn cryfhau ymagwedd y Cyngor ac yn fuddiol i gynllunio cyllidebau. Amlinellodd y Cynghorydd Thompson-Hill yn fyr y polisi gan dynnu sylw at feysydd penodol yn y ddogfen, gan gynnwys cwmpas y polisi; egwyddorion allweddol codi tâl a chonsesiynau. Amlygodd yn benodol yr egwyddor allweddol mai'r rhagdybiaeth sy'n mynd rhagddo fyddai codi tâl cyfreithiol am wasanaeth oni bai bod rheswm penodol dros beidio â gwneud hynny, a bod y tâl yn codi'n flynyddol yn unol â chwyddiant.

Nododd y Cabinet fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi galw i mewn y polisi corfforaethol yn ymwneud â ffioedd a thaliadau mewn Adroddiadau Gwella Blynyddol blaenorol gyda'r bwriad o gryfhau ei ymagwedd tuag at gynhyrchu incwm. Cydnabuwyd fod y polisi yn bennaf ynghylch dod â'r holl elfennau at ei gilydd mewn dogfen gorfforaethol ar gyfer tryloywder a sicrhau bod yr holl wasanaethau yn gweithio i'r un egwyddorion sylfaenol. O ran cyflwyno taliadau newydd, megis am wasanaethau gofal cymdeithasol, ystyriwyd ei bod yn hanfodol bod strategaeth ymgysylltu briodol â'r cyhoedd yn cael ei defnyddio ac i fod yn sensitif i anghenion y cyhoedd. Canolbwyntiodd peth o'r drafodaeth ar yr angen i feincnodi lefel y taliadau yn erbyn sectorau gwasanaeth eraill i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gwerth cyfredol ar y farchnad a chadarnhawyd bod yr elfen hon eisoes wedi'i hysgrifennu yn y polisi.

Mynegodd y Cynghorydd Meirick Davies bryderon ynglŷn â chostau ychwanegol a osodwyd gan y Cyngor wrth dalu mewn arian parod am wasanaethau. Dywedodd y Pennaeth Cyllid ei fod yn costio llai yn gyffredinol i gasglu taliadau drwy ddebyd uniongyrchol ac felly anogwyd taliadau electronig. Cytunodd i edrych ymhellach i'r mater ac adrodd yn ôl i'r Cynghorydd Davies yn uniongyrchol.

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Cabinet yn cymeradwyo'r ddogfen 'Polisi Corfforaethol: Ffioedd a Thaliadau Incwm' ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad.*

## 8 POLISI ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW DIWYGIEDIG 2017 / 18

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ac argymhelliad o ddiwygiadau i Bolisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) 2017/18 i'r Cyngor Sir.

Yn dilyn adolygiad o Bolisi MRP cyfredol y Cyngor, fe nodwyd trwy newid y dull ar gyfer gwneud yr MRP, y byddai cyfle i wneud arbediad sylweddol. Roedd y newid arfaethedig hefyd yn cyflwyno dull mwy cyfiawn o ddosrannu'r costau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen gyfalaf. Arweiniwyd y Cabinet drwy'r wybodaeth dechnegol gan gynnwys methodolegau gwahanol y gellid eu mabwysiadu a'r rhesymu y tu ôl i'r diwygiadau a'r casgliad arfaethedig mai'r fethodoleg fwyaf priodol fyddai symud i linell syth bywyd yr ased a oedd yn ei hanfod yn ad-dalu dyled a aseswyd dros 50 mlynedd. Byddai'r newid arfaethedig yn rhyddhau £1.861 miliwn o arbedion arian parod yn 2017/18 a gostyngiad parhaus yn y gyllideb o £1.861 miliwn. Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid y byddai'r diwygiadau'n effeithio'n well ar genedlaethau'r dyfodol oherwydd y byddai'r ddyled yn cael ei thalu. Roedd yn ddull darbodus o ymdrin ag MRP ac roedd wedi'i seilio ar asesiad cadarn o asedau perthnasol.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r Pennaeth Cyllid i faterion penodol fel a ganlyn -

- gofynnwyd am sicrwydd na fyddai cyfyngu ar fenthyca yn y dyfodol o 2033 pan oedd angen ad-daliadau uwch.
- Eglurwyd bod y ddyled yn cael ei lledaenu dros gyfnod hirach ond y byddai'n cael ei ddileu yn y pen draw ac y byddai uchelbwyntiau ac iselbwyntiau dros y cyfnod hwnnw ond roedd swyddogion yn hyderus eu bod yn hawdd eu rheoli yn y cynllun cyffredinol. Rhoddwyd sicrwydd pellach na fyddai'r fethodoleg yn effeithio ar gapasiti'r Cyngor yn y dyfodol a'r risg fwyaf i'r awdurdod oedd cyllid cyffredinol yn hytrach na gwahaniaethau cymharol ymylol yn y gost o wasanaethu peth o'r ddyled hanesyddol. Eglurwyd y byddai arbediad cyllideb blynyddol rheolaidd ac y byddai hefyd arbediad arian parod yn y flwyddyn ariannol gyfredol trwy weithredu'r diwygiadau ar y pwynt hwn.
- O ran prynu cytundeb PFI Neuadd y Sir, eglurwyd, o ystyried y cyfraddau benthyca isel, ei bod wedi costio'n sylweddol llai i'r Cyngor i brynu eu hunain allan o'r cytundeb nag i barhau ag ef; gwnaed arbediad pellach ar gostau cynnal a chadw'r adeilad.

Croesawodd y Cabinet y newid polisi fel modd o arbed costau mewn ffordd nad oedd yn cael effaith negyddol ar wasanaethau tra hefyd yn pennu polisi MRP doeth fel y gwelir yn y wybodaeth dechnegol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a)* *cymeradwyo ac argymell i'r Cyngor Sir y diwygiadau i'r polisi MRP ar gyfer 2017/18 -*

- *Polisi ar gyfer 2017/18 - Opsiwn 3 (Dull Bywyd Asedau - llinell syth) i'w ddefnyddio ar gyfer cyfrifo MRP ar fenthyca â chymorth sy'n ddyledus ar 31 Mawrth 2017. Y cyfrifiad fydd y dull 'llinell syth' dros 50 mlynedd.*
- *Mae hyn yn cynrychioli newid o Opsiwn 1 (Dull Rheoleiddiol) fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 14 Chwefror 2017 Polisi ar gyfer 2017/18 - Opsiwn 3 (Dull Bywyd Asedau - llinell syth) i'w defnyddio ar gyfer cyfrifo MRP ar fenthyca â chymorth a gafwyd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2017. Y cyfrifiad fydd y dull 'llinell syth' dros nifer priodol o flynyddoedd, yn dibynnu ar y cyfnod y bydd y gwariant cyfalaf yn debygol o greu buddion. Mae hyn hefyd yn newid o Opsiwn 1.*
- *Polisi ar gyfer 2017/18 - Opsiwn 3 (Dull Bywyd Asedau – llinell syth) i'w ddefnyddio ar gyfer cyfrifo MRP ar yr holl wariant cyfalaf a ariennir o fenthyca heb gymorth. Mae hyn yn cynrychioli parhad o'r polisi a gymeradwywyd.*

*(b)* *cymeradwyo'r defnydd o'r arbediad arian parod yn 2017/18 a'r arbedion cyllideb rheolaidd o 2018/19 fel y'u nodir yn fersiwn ddiweddaraf y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac a grynhoir isod: -*

- *Arbedion Ariannol 2017/18 - argymhellir fod yr arbedion ariannol o £1.861 miliwn yn cael eu gosod yng Nghronfa Lliniaru'r Gyllideb er mwyn cynorthwyo i liniaru effeithiau'r gostyngiadau yn y gyllideb yn 2018/19*

- *Arbedion parhaus o 2018/19 – argymhellir gostwng y gyllideb ariannu cyfalaf o £1.861 miliwn fel rhan o'r strategaeth i gydbwyso cyllideb 2018/19.*

## 9 ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI TRYSORLYS 2016/17

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn diweddaru'r aelodau ar berfformiad swyddogaeth rheoli'r trysorlys ac yn dangos cydymffurfiad â chyfyngiadau'r trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus yn ystod 2016/17.

Wrth grynhoi'r adroddiad, tynnodd y Cynghorydd Thompson-Hill sylw at bwysigrwydd rheoli'r trysorlys a'r prif bwyntiau ar gyfer aelodau o ran benthyca a gweithgareddau buddsoddi. Cadarnhaodd hefyd bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r holl ddangosyddion darbodus a osodwyd ac arweiniodd yr aelodau trwy'r dangosyddion hynny fel y manylir arnynt yn Atodiad B i'r adroddiad, gan gadarnhau cymarebau priodol o gostau ariannu a lefelau benthyca. O ran ymrwymiadau parhaus i'r Cynllun Corfforaethol cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod rhai prosiectau ariannu ysgolion wedi cymryd mwy o amser i ddwyn ffrwyth a bod cyllid wedi'i nodi i fynd ymlaen gyda'r prosiectau hynny cyn belled bod yr holl ofynion yn cael eu bodloni.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a) Nodi perfformiad swyddogaeth rheoli trysorlys y Cyngor yn ystod 2016/17 a'i gydymffurfiaeth â'r dangosyddion darbodus, fel yr adroddwyd yn Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol 2016/17 (Atodiad 1 yr adroddiad) a*

*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 2 o'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

## 10 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni. Rhoddodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor-

- rhagwelwyd tanwariant net o £0.002miliwn ar gyfer cyllidebau gwasanaethau a chyllidebau corfforaethol
- arbedion effeithlonrwydd gwasanaeth gwerth £0.902m a oedd wedi'u cytuno eisoes fel rhan o'r gyllideb, gyda'r rhagdybiaeth y byddai'r cyfan yn cael ei ddarparu – byddai unrhyw eithriadau'n cael eu hadrodd i'r Cabinet pe bai angen
- amlygodd y risgiau a'r amrywiannau cyfredol mewn perthynas â meysydd gwasanaeth unigol gyda phwyslais penodol ar y gorwariant yn y Gwasanaethau Plant o ystyried yr anwadalrwydd mewn costau lleoli y sefydlwyd cronfa wrth gefn i'w liniaru, a
- darparodd ddiweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys yr elfen Cynllun Corfforaethol)

Cyfeiriwyd hefyd at y newidiadau yn y ddarpariaeth MRP a gymeradwywyd gan y Cabinet a defnydd o'r arbedion o £1.861m i helpu i liniaru gostyngiadau pellach i'r gyllideb yn y dyfodol.

Codwyd y materion canlynol wrth drafod –

- Ysgol Stryd y Rhos ac Ysgol Penbarras - Dywedodd y Cynghorydd Bobby Feeley bod un o'r llwybrau diogel i'r ysgolion wedi cael ei wrthod am gyllid oddi wrth y llywodraeth a gofynnodd am sicrwydd y byddai cyllid amgen yn cael ei sicrhau.
- Cadarnhaodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts fod y mater yn cael sylw ac adroddodd ar waith yn mynd rhagddo gyda'r bwriad o sicrhau cyllid ar gyfer y llwybr hwnnw.
  Diffygion Ysgolion - codwyd pryderon blaenorol ynghylch nifer yr ysgolion mewn diffyg ariannol a chynhaliwyd cyfarfodydd rhwng Aelodau Arweiniol a Swyddogion Cyllid a sicrhawyd bod y methodolegau ar waith i ddelio â'r diffygion hynny. Rhoddwyd sicrwydd hefyd fod y cynlluniau adfer ariannol yn cynnwys llinell amser glir a dyddiad penodedig a byddai'n destun monitro ac adolygu manwl.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2017/18 a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni.*

## 11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau eitem i'w ychwanegu at y rhaglen waith ar gyfer mis Hydref ynghylch contractau Byw Cymunedol Anabledd Dysgu Sir Ddinbych.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

### Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 12 PARC DŴR Y RHYL: DYFARNU CONTRACTAU

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad cyfrinachol yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contract ar gyfer y gwaith o ddatblygu Parc Dŵr y Rhyl.

Rhoddwyd gwybodaeth gefndir i'r Cabinet a oedd wedi arwain at benderfyniad y Cyngor i ddatblygu Parc Dŵr newydd yn y Rhyl fel rhan o raglen datblygu Adfywio a Glannau'r Rhyl ynghyd â chynnydd hyd yn hyn. Er mwyn cwrdd â'r rhaglen adeiladu a sicrhau sicrwydd cost, roedd angen dyfarnu'r contract ddechrau mis Medi. O ystyried y cyfyngiadau amser hynny, gwnaed y penderfyniad i ddyfarnu'r contract o dan gynllun dirprwyo'r Cyngor. Byddai unrhyw oedi wedi arwain at gostau ychwanegol a risgiau i amserlen y prosiect a chadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd ei fod yn fodlon ei fod yn benderfyniad priodol a wnaed o dan bwerau dirprwyedig.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a nodi'r adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.50 p.m.